

CHEME

Canolfan Economeg
Iechyd a Gwerthuso
Meddyginaethau



PRIYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



GAEAF 2013/14

Croeso i Newyddlen Gaeaf 2013/14 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwytio ar lwyddiannau a gweithgareddau ymchwil ddiwedd 2013 a dechrau 2014. Ymysg yr uchafbwyntiau mae cyflwyniadau buddugol Emily Holmes a Paul Parham yn y gynhadledd ISPOR yn Nulyn, cyhoeddi adroddiad y King's Fund ar bolyfferylliaeth a lansio'r cwrs byr cyntaf ar ddefnyddio economeg iechyd cyhoeddus.

Rydym wedi symud yn ddiweddari i adeiladau newydd yn Arddudwy, cyn dŷ i esgobion sy'n edrych dros Borthaethwy a'r Fenai. Mae hyn wedi dod â chanolfannau ymchwil Sefydliad Ymchwil Meddygol a Gofal Cymdeithasol (IMSCaR) at ei gilydd ar Safle'r Normal yn y brifysgol. Mae croeso i ymwelwyr alw heibio unrhyw bryd; ceir gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i ni ar y dudalen ôl.

Dyfrig Hughes a Rhiannon Tudor Edwards

CYD-GYFARWYDDWYR CHEME

YN Y RHIFYN HWN

Digwyddiadau i ddod

Rhoi sylw i ymchwil

Trefniadau cyllido newydd

Newyddion am Staff

Cyhoeddiadau diweddar



Grŵp ymchwil CHEME
yn Arddudwy, eu
hadeilad newydd.

RHOI SYLW I YMCHWIL...

TRIN EPILEPSI

Mae epilepsi yn effeithio ar tua 1% o'r boblogaeth, ond wrth ei reoli'n effeithiol, mae'n bosib i tua 70% o bobl sy'n dioddef o epilepsi fyw heb gael ffitiau. Mewn cydweithrediad â Tony Marson a chydweithwyr yn y Walton Centre a Phrifysgol Lerpwl, mae gan Dyfrig Hughes, Emily Holmes a Catrin Plumpton o CHEME raglen o proiectau wedi eu hariannu gan NIHR, sy'n ymwnneud ag economeg epilepsi. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaeth o ddewisiadau clefion am briodoeddau gwahanol driniaethau, wedi eu hasesu drwy ddefnyddio arbrofion penadol, dadansoddiad cost-effeithiolrwydd o brofion ffarmacogenetig cyn y driniaeth gyda carbamazepine, gwerthusiad economaidd o ddulliau i geisio sicrhau bod pobl yn cymryd eu meddyginaeth yn rheolaidd ac astudiaeth o'r gwahaniaethau rhwng cyffuriau generig a chyffuriau antiepileptig wedi eu brandio. Nod y treial SANAD2, sydd wedi recriviaw mwya na thargedwyd hyd yma, yw cymharu effeithiolrwydd a chost effeithiolrwydd levetiracetam a zonisamide yn erbyn triniaethau safonol am epilepsi.

MESUR IECHYD, ANSAWDD BYWYD A LLES O GANLYNIAD I DAI GWELL

Mae rhwng £600 miliwn a £2.4 biliwn yn cael ei wario bob blwyddyn yn y DU yn trin afiechydon sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â thai gwael (Sefydliad Iechyd y Byd, 2011). Mae CHEME wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Gentoo Green a Nottingham City Homes i ddysgu mwya am effaith tai ar iechyd, ansawdd bywyd a lles. Bydd y project Warm Homes for Health yn

ymchwilio i ddefnyddio dulliau safonol ac arloesol economeg iechyd o werthuso economaidd gyda gwelliannau tai o ran cynhesrwydd, effeithlonrwydd tanwydd a lleithder, fel rhan o gynllun gwella 2000 o dai yn Sunderland a Nottingham. Ein nod yw pennu cost-effeithiolrwydd gwelliannau tai o safbwyt iechyd ac ansawdd bywyd trigolion. Mae Rhiannon Tudor Edwards a Nathan Bray o CHEME, ynghyd â chydweithwyr o Gentoo Green a Nottingham City Homes wedi trafod y project hwn yn y gynhadledd "Putting health at the heart of fuel poverty strategies - A special evidence summit on health, fuel poverty and cold homes" a gynhalwyd yn San Steffan ym mis Tachwedd 2013.

GWERTHUSO GWEITHGAREDD CEFNOGOL YMYSG POBL SY'N DIODDEF O GLEFYD HUNTINGTON

Gwerthusiad Cam II o weithgaredd cefnogol ymysg pobl sy'n dioddef o glefyd Huntington yw ENGAGE-HD, a gaiff ei ariannu gan y NIHR EME. Clefyd niwrolegol a etifeddir yw clefyd Huntington, sy'n arwain ymhent amser at broblemau cynyddol o ran symud, meddwl ac ymddygiad. Fel arfer, mae'r symptomau'n datblygu rhwng 30 a 50 oed, ac yn cynnwys symudiadau cyhyrol na ellir eu rheoli, lletchwithdod, diffyg canolbwytio a chyfnodau tymor byr o anghofio pethau. Gall newidiadau mewn hwyliau gynnwys iselder ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Amcangyfrifir bod clefyd Huntington yn effeithio ar tua 8,000 o bobl yn y DU; ac ychydig iawn

o wybodaeth sydd ar gael am gostau economaidd y clefyd. Dr Monica Busse, Prifysgol Caerdydd yw arweinydd ENGAGE-HD, ac mae'n cydweithio ag unigolion o Rydychen, Bangor, Birmingham, Shefield, Aberdeen a Southampton. Dylai'r broses recriviaw ddechrau yn ystod gwanwyn 2014, a rhagwelir y bydd 62 o bobl sy'n dioddef o glefyd Huntington yn cael eu dewis ar hap i gymryd rhan mewn naill ai ymyriad gweithgaredd corfforol neu ymyriad gweithgaredd cymdeithasol dros gyfnod o 16 wythnos. Bydd yr elfen economeg iechyd yn cynnwys prisio'r ddau fath o ymyriad ac asesu cost-effeithiolrwydd y ddau ymyriad gan ddefnyddio EQ-5D, ICECAP-A a HDQoL.

ADRODDIAD Y KING'S FUND GAN BOLYFFERYLLIAETH

Mae polisi, hyfforddiant meddygol ac ymarfer clinigol wedi methu ag addasu i gynydd sylweddol yn nifer y clefion sy'n cymryd nifer o wahanol fathau o gyffuriau presgripsiwn, yn ôl adroddiad newydd a gyhoeddwyd gan y King's Fund, ac a olygywd gan Martin Duerden, Uwch Ddarlithydd Clinigol CHEME. Mae'r adroddiad yn dadlau bod angen i bolyfferylliaeth gael ei ddeall a'i ddiffinio'n well, ac ymwnneud mwya â chleifion i sicrhau bod meddyginaethau'n cael eu cymryd yn y modd y bwriedir iddynt gan y rhai sy'n eu hargymhell. Mae'n bosib y byddai hyn yn galw am gyfaddawd rhwng y rhai sy'n argymhell y cyffuriau a'r clefion er mwyn sicrhau bod gan gleifion hyder yn y cyffuriau maent yn eu cymryd ac osgoi sefyllfaeodd lle gwastraffir meddyginaethau. Mae gofal integredig bellach wedi ei dderbyn fel y ffورد ymlaen o ran gofalu am bobl sy'n byw gyda nifer o gyflyrau, cyflyrau cymhleth a chyflyrau tymor hir. Mae'n rhaid i bolyfferylliaeth priodol, neu optimeiddio meddyginaethau, gael ei dderbyn bellach fel un o'r ffyrdd y gallwn sicrhau gofal sy'n fwya cydlynol.





Emily Fargher gyda'i gwobr am y cyflwyniad podiwm gorau cyffredinol a Paul Parham gyda'i wobr am y cyflwyniad podiwm gorau i ymchwilwyr newydd, yn y "16th Annual European Congress of the International Society for Pharmacoeconomics and Outcomes Research" (ISPOR) yn Nulyn.

(uchod) Dyfrig Hughes yn rhoi cyflwyniad yn y "Costing Methodology within Clinical Trials Workshop", yn Rhydychen, 2013.

NEWYDDION AM STAFF

Llongyfarchiadau i Carys Jones ar ennill doethuriaeth ar "Application of the capability approach to health economics research involving informal carers of people with dementia" ac i Warren Linley ar ennill doethuriaeth ar "Reimbursement decisions for new medicines: exploration of the preferences of decision-makers and the public"

Llongyfarchiadau i Dyfrig Hughes a etholwyd yn gymrawd y British Pharmacological Society (BPS). Mae cymrodr yr BPS wedi dangos eu bod yn arbenigo ym maes ffarmacoleg ac wedi cael cydnabyddiaeth gan eu cymheiriaid am hynny.

(tudalen gyferbyn) Tîm y project ENGAGE-HD (o'r chwith i'r dde) Carys Jones, Dr. Monica Busse (Prifysgol Caerdydd), Yr Athro Helen Dawes (Oxford Brookes University), Yr Athro. Kerry Hood (Prifysgol Caerdydd), Dr. Lori Quinn (Prifysgol Caerdydd) a Rhiannon Tudor Edwards.

DIGWYDDIADAU I DDOD

Mae Bangor wedi lansio cwrs byr newydd mewn economeg iechyd cyhoeddus cymhwysol dan y teitl "Health Economics for Public Health Practice & Research", a gynhelir 15-17 Ebrill 2014.

Mae'r cwrs byr newydd hwn yn seiliedig ar ugain mlynedd o'n profiad yn dysgu economeg iechyd i ymarferwyr ym maes iechyd cyhoeddus a phobl sy'n cynnal gwaith ymchwil ym maes iechyd cyhoeddus. Mae wedi ei gyllunio i ddiwallu anghenion pobl sy'n dymuno meithrin ymwybyddiaeth o economeg iechyd cyhoeddus, p'un a ydynt yn gweithio ym maes iechyd cyhoeddus yn y GIG, Ilywodraeth leol, y byd academaidd, yn dilyn cwrs Meistr mewn lechyd Cyhoeddus neu yn paratoi am ran A yr arholiad i fod yn aelod o'r UK Faculty of Public Health. Mae Rhiannon Tudor Edwards, trefnydd y cwrs, hefyd wedi pwysleisio bod y cwrs hwn yn adnodd i economegwyr iechyd sy'n symud i faes gwerthuso economaidd ymyriadau iechyd cyhoeddus. Gweler <http://cheme.bangor.ac.uk/> i gael rhagor o wybodaeth.

TREFNIADAU CYLLIDO NEWYDD

Mae CHEME yn cydweithio ar nifer o astudiaethau clinigol â'r partneriaid canlynol:

- Prifysgol Lerpwl ar eu cais llwyddiannus yn ddiweddar i'r NIHR i ymchwilio i sefydlu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol i sicrhau gofal dementia.
- Paul Brogan yn ysbyty Great Ormond Street ar y project MYPAN, sef prawf clinigol o ddefnyddio mycophenolate mofetil yn hytrach na cyclophosphamide i drin polyarteritis nodosa mewn plant, wedi ei ariannu gan Arthritis Research UK.
- Moorfields Eye Hospital, Llundain ar ddau project; bydd y project ASCOT yn asesu effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd defnyddio steroidau yn y llygaid yn ystod llawdriniaeth vitoretinol am anafiadau i'r llygaid, wedi ei ariannu gan NIHR HTA. Bydd y project CLARITY yn ymchwilio i effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd defnyddio aflibercept intravitreal gyda ffontogelad laser panretinal i bobl sydd â retinopathi diabetig ymledol, wedi ei ariannu gan NIHR EME.

gentoo


Tîm y project Warm Homes for Health (o'r chwith i'r dde) Nathan Bray, Paul Burns (Green Futures Manager, Gentoo Green), Rhiannon Tudor Edwards ac Alice Jones (Housing Impact Consultant, Nottingham City Homes)



CYHOEDDIADAU...

- Ridyard CH, Hughes DA; DIRUM Team. Taxonomy for methods of resource use measurement. *Health Econ.* 2014. doi: 10.1002/hec.3029.
- Ramanan AV, Dick AD, Benton D, Compeyrot-Lacassagne S, Dawoud D, Hardwick B, Hickey H, Hughes D, Jones A, Woo P, Edelsten C, Beresford MW; SYCAMORE Trial Management Group. A randomised controlled trial of the clinical effectiveness, safety and cost-effectiveness of adalimumab in combination with methotrexate for the treatment of juvenile idiopathic arthritis associated uveitis (SYCAMORE Trial). *Trials.* 2014 Jan;15(1):14.
- Ramanan AV, Dick AD, Benton D, Compeyrot-Lacassagne S, Dawoud D, Hardwick B, Hickey H, Hughes D, Jones A, Woo P, Edelsten C, Beresford MW; The British antibiotic and silver-impregnated catheters for ventriculoperitoneal shunts multi-centre randomised controlled trial (the BASICS trial): study protocol. *Trials.* 2014 Jan;15(1):4.
- Charles JM, Bywater TJ, Edwards RT, Hutchings J, Zou L. Parental depression and child conduct problems: evaluation of parental service use and associated costs after attending the Incredible Years Basic Parenting Programme. *BMC Health Serv Res.* 2013 Rhagfyr 18;13(1):523.
- Holmes E, Plumpton C, Duerden M, Marson T, Hughes D. New advice on switching antiepileptic drugs might be a false economy. *BMJ.* 2013 Rhagfyr 16;347:f7471.
- Hiligsmann M, Salas M, Hughes DA, Manias E, Gwadry-Sridhar FH, Linck P, Cowell W. Interventions to improve osteoporosis medication adherence and persistence: a systematic review and literature appraisal by the ISPOR Medication Adherence & Persistence Special Interest Group. *Osteoporos Int.* 2013 Rhagfyr;24(12):2907-18.
- Hurt CN, Roberts K, Rogers TK, Griffiths GO, Hood K, Prout H, Nelson A, Fitzgibbon J, Barham A, Thomas-Jones E, Edwards RT, Yeo ST, Hamilton W, Tod A, Neal RD. A feasibility study examining the effect on lung cancer diagnosis of offering a chest X-ray to higher-risk patients with chest symptoms: protocol for a randomized controlled trial. *Trials.* 2013 Tachwedd 26;14:405.
- Edwards RT, Linck P, Hounsome N, Raisanen L, Williams N, Moore L, Murphy M. Cost-effectiveness of a national exercise referral programme for primary care patients in Wales: results of a randomised controlled trial. *BMC Public Health.* 2013 Hydref 29;13(1):1021.
- Edwards RT, Charles JM, Lloyd-Williams H. Public health economics: a systematic review of guidance for the economic evaluation of public health interventions and discussion of key methodological issues. *BMC Public Health.* 2013 Hydref 24;13(1):1001.
- Russell IT, Edwards RT, Gliddon AE, Ingledew DK, Russell D, Whitaker R, Yeo ST, Attwood SE, Barr H, Nanthalakumaran S, Park KG. Cancer of Oesophagus or Gastric - New Assessment of Technology of Endosonography (COGNATE): report of pragmatic randomised trial. *Health Technol Assess.* 2013 Medi;17(39):1-170.
- Gwadry-Sridhar FH, Manias E, Lal L, Salas M, Hughes DA, Ratzki-Leewong A, Grubisic M. Impact of interventions on medication adherence and blood pressure control in patients with essential hypertension: a systematic review by the ISPOR medication adherence and persistence special interest group. *Value Health.* 2013 Gorffennaf-Awst;16(5):863-71.
- Waldock J, Chandra NL, Lelieveld J, Proestos Y, Michael E, Christopides G, Parham PE. The role of environmental variables on *Aedes albopictus* biology and chikungunya epidemiology. *Pathog Glob Health.* 2013 Gorffennaf;107(5):224-41.
- Dawoud D. Time for more focus on pharmacoeconomics. *Pharm J.* 2013 Gorffennaf 6;291:11.
- Waldock J, Parham PE, Lelieveld J, Christopides GK. Climate and Human Health: The Impact of Climate Change on Vector-Borne Diseases. *Pathog Glob Health.* 2013;107:387-92.

Ceir mwy o wybodaeth ar ymchwil, dysgu a gweithgareddau cefnogol GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwyr Sioned Edwards: s.edwards@bangor.ac.uk ac Ann Lawton: a.b.lawton@bangor.ac.uk



SUT I GAEL HYD I NI

Mae CHEME wedi ei leoli ar Safle'r Normal sydd rhwng Bangor ac Ynys Môn, ar ffordd yr A5.

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginaethau, Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol, Arddudwy, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 2PZ

